EPT-02-00 (p 4)

## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

# FFRAMWAITH CYNLLUNIO LLEOEDD NEWYDD AR GYFER CYMRU AC ADOLYGIAD O’R CANLLAWIAU CYNLLUNIO

## Pwrpas

1. Mae’r papur hwn yn disgrifio’r broses o ddatblygu fframwaith cynllunio lleoedd newydd ar gyfer Cymru, ac yn egluro sut yr ydym yn adolygu ac yn diwygio ein canllaw cynllunio.

## Cefndir

### Fframwaith Lleoedd

2.1 Ceir y cyd-destun gan y Perspectif Ewropeaidd Datblygu Lleoedd (ESDP) mewn dogfen a gymeradwywyd gan Aelod-Wledydd yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 1999. Mae’n rhoi’r cyd-destun Ewropeaidd ar gyfer polisïau cynllunio ar bob lefel, gan gysylltu cynllunio defnydd tir wrth raglenni a pholisïau datblygu economaidd a chymdeithasol. Yn gryno, mae’n ei gwneud yn ofynnol i oblygiadau polisïau, cynlluniau a rhaglenni Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol, mewn perthynas â lleoedd, gael eu clustnodi o fewn fframwaith yr amcanion polisi canlynol: gallu cytbwys i fod yn gystadleuol, cydlyniad economaidd a chymdeithasol, a datblygu cynaliadwy.

2.2 Mae’r gair ‘lleoedd’ yn deillio o’r syniad a geir yn Ffrainc o gynllunio ‘tiriogaethol’ (l’amenagement du territoire), ond yng nghyd-destun Prydain gellir ei ddehongli’n fwyaf uniongyrchol fel canllawiau a chynlluniau polisi sy’n rhoi arweiniad i gynlluniau lleol h.y. canllaw polisi cynllunio cenedlaethol, fframweithiau ar gyfer lleoedd a chynlluniau datblygu. Bwriedir paratoi Fframwaith Cynllunio Lleoedd ar gyfer Cymru - mewn gwirionedd bydd yn ymrwymiad yn ‘Gwell Cymru’. Fel cam cyntaf yn y broses gynhwysol o baratoi hwnnw, bydd elfennau sy’n ymwneud â lleoedd ("beth sy’n mynd ym mhle") yn cael eu gwneud yn fwy clir ac yn cael eu hehangu yn yr adolygiad presennol o ganllaw cynllunio. Ni ddylai unrhyw ganllaw ar leoedd a gyhoeddir gan y Cynulliad fod mor fanwl fel ei fod yn mynd â’r gallu i wneud penderfyniadau o ddwylo’r awdurdodau cynllunio lleol.

### Canllaw Cynllunio

3.1 Ceir y canllawiau polisi cynllunio ar gyfer Cymru mewn un ddogfen gynhwysfawr, ond cryno, Canllaw Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio (Adolygiad Cyntaf), Ebrill 1999. Mae’r ddogfen hon eisoes yn cynnwys canllaw sydd wedi’i deilwrio’n arbennig ar gyfer Cymru. Caiff ei defnyddio fel cyd-destun ar gyfer rheoli datblygu gan y Cynulliad, awdurdodau cynllunio lleol,

asiantaethau, datblygwyr a'r cyhoedd, ac fel cyd-destun ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu. Ceir canllawiau technegol mewn cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) sy'n ategu'r ddogfen bolisi ac sy'n cael eu hadolygu o dro i dro. Ceir y canllaw gweithdrefnol ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu yng Nghanllaw Cynllunio (Cymru): Cynlluniau Datblygu Unedol sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae cyfres debyg hefyd yn amlygu mewn perthynas â chynllunio mwynau - Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, sydd ar hyn o bryd ar ffurf drafft – a gaiff ei ategu maes o law gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau.

3.2. Gall rhannau o'r dogfennau hyn, neu'r cyfan ohonynt, fod yn "ystyriaethau o bwys" a gallant gael eu rhoi ar brawf mewn Llys Barn. Mae'r polisïau a gynhwysir ynddynt yn glir yn sgîl penderfyniadau a wnaed dros y blynyddoedd, ac mae'n rhaid ystyried unrhyw newidiadau yn ofalus er mwyn peidio ag achosi newidiadau anfwriadol i bolisïau.

3.3. Mae gan y Cynulliad ber i baratoi ei ganllaw cynllunio ei hun. Bydd datblygu'r ddwy gyfrol bolisi – mwynau a chynllunio defnydd tir yn gyffredinol – ar y cyd, yn gwbl briodol ar gyfer y Cynulliad, ac ar gyfer Cymru. At hynny, mae hefyd yn briodol eu bod, nid yn unig yn cynnwys polisïau, ond hefyd canllawiau cyffredinol ynghylch "beth sy'n mynd ym mhle".

**Y Broses**

4.1 Yr adolygiad presennol o'r canllaw cynllunio cyffredinol yw'r mwyaf agored a chynhwysol hyd yma. Caiff ei seilio ar y newidiadau i bolisïau Ewropeaidd a'r DU, ac ar yr ymchwil a gwybodaeth sydd ar gael ers y diweddariad diwethaf. Gwneir hyn trwy gyfrwng adolygiad hollbwysig o'r polisi presennol, a gefnogir gan y Pwyllgor hwn, ac sydd yn cymryd i ystyriaeth farn Pwyllgorau a Fforymau eraill y Cynulliad, gan gynnwys y Fforwm Cynllunio sydd i adrodd yn ôl erbyn Gorffennaf, ac adolygiad y Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig o Arallgyfeirio yng Nghefn Gwlad. Bydd yn arwain at baratoi dogfen newydd: "Polisi Cynllunio Cymru", yr ydym yn bwriadu ei chyhoeddi i ymgynghori yn ei chylch erbyn diwedd y flwyddyn. Ceir crynodeb o'r amserlen yn yr Atodiad.

4.2 Mae ymchwil a gomisiynwyd gennym yn ddiweddar wedi tynnu sylw at yr angen am i bolisïau cynllunio yn y dyfodol ymwneud yn benodol â materion Cymreig, yn fwyaf arbennig datblygu cynaliadwy, cynllunio gwledig, a chynllunio lleoedd. Comisiynwyd hefyd astudiaeth o oblygiadau'r dogfennau drafft Rhaglennu Sengl Amcan 1, Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a'r Cynllun Datblygu Gwledig o ran cynllunio lleoedd. Mae'r ddau gynllun wedi cael eu rhoi ar y fewnrwyd. Bydd adroddiad a ddaw i law cyn bo hir ynghylch Strategaethau Rhanbarthol yn cael ei roi ar y Fewnrwyd cyn bo hir, yn ogystal â'r holl astudiaethau ymchwil i gynllunio yn y dyfodol a gomisiynir gan y Cynulliad. Bydd y rhain hefyd yn cael eu rhoi ar wefan Cynllunio. Bydd yr adroddiadau yn cael eu dosbarthu'n eang er mwyn cael gwybodaeth i ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

4.3 Bydd angen i Bolisi Cynllunio Cymru hefyd gymryd i ystyriaeth oblygiadau'r canlynol ar

bolisïau cynllunio: yr ymgyrch am arallgyfeirio yng nghefn gwlad, trafnidiaeth integredig a'r fenter ddylunio a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

**Argymhelliad**

5. Gwahoddir y Pwyllgor i glustnodi'r materion polisïau cynllunio hynny sy'n benodol i Gymru, a'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r canllaw cynllunio yn yr adolygiad sydd ar y gweill, ac unrhyw faterion tymor hir y bydd angen mynd i'r afael â hwy trwy gyfrwng ymchwil neu is-ddeddfwriaeth.

**Goblygiadau Ariannol**

6. Ni fydd paratoi fframwaith ar gyfer lleoedd a chanllaw polisi cynllunio yn arwain at fwy o gostau na'r rheini a neilltuwyd ar gyfer datblygu ac ymchwilio i bolisïau cynllunio.

**Cydymffurfio**

7. Mae Canllaw Cynllunio (Cymru) a Chanllaw Cynllunio Mwynau (Cymru) yn cynnwys datganiadau am y polisïau cenedlaethol mewn perthynas a defnyddio tir, cynllunio mwynau a materion cynllunio eraill. Maent yn rhoi fframwaith ar gyfer y swyddogaethau o lunio cynlluniau datblygu statudol a rheoli datblygu yng Nghymru sydd wedi cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad gan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, yr ychwanegir ato maes o law gan y fframwaith ar gyfer lleoedd. Mae gan y Cynulliad ber i wneud unrhyw beth sy'n ymwneud â gweithredu ei swyddogaethau statudol (Adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998). Ceir y per i wneud ymchwil yn Adran 304 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r per hwn wedi cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad gan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau.

**Swyddog Cyswllt**

8. Ms K S Powell, Pennaeth yr Is-adran Gynllunio estyniad 3876: (kay.powell@wales.gsi.gov.uk)

Yr Is-adran Gynllunio - Mai 2000

**ATODIAD : AMSERLEN AR GYFER PARATO'R ADOLYGIAD O'R CC(C)PC**

| | **2000**<br>**Hyd-Rhag Ebr-Meh Gorff-Medi** | | **2001**<br>**Ion -Maw Ebr-Meh Gorff-Medi** | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgrifennydd y Cynulliad** | | **Cymeradwyo'r ddogfen ddrafft Rhagfyr** | **Ymgynghori â'r cyhoedd** | **Cymeradwyo Polisi Cynllunio Cymru** |

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Amg. Cyn. a Thrafnidiaeth (i’w ystyried)** | **# #** | **#** |
| **Pwyllgor Amaeth. a Dat. Gwledig (mewnbwn i’r adolygiad)** | **+ Adroddiad ar arallgyfeirio yng nghefn gwlad (Gorff.)** | |
| **Fforwm Cynllunio (trafodaethau/ gweithgorau/ paratoi’r adroddiad)** | **# # + Adroddiad terfynol i Sue Essex (Gorff.)** | |
| **Is-adran Gynllunio (gwaith cynnal trwyddo draw, gydag is-adrannau eraill fel y bo’r galw)** | **——— +** | **——— +** |

**NODIADAU: # yn dynodi cyfarfod/trafodaeth**

**- yn dynodi cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Cymru drafft 2000**

**+ testun yn dynodi cyfraniad i’r adolygiad trwy gyfrwng adroddiad**